CYNGOR TREF PORTHMADOG

Tachwedd 3 2026

Annwyl Gynghorydd,
Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am **19.00**, Nos Fawrth, Tachwedd 10 2026 yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog a thrwy gyfrwng Zoom. I dderbyn gwahoddiad ar gyfer mynediad, cysylltwch â'r Clerc ar clerccyngtreport@gmail.com

Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 10 2026

RHAGLEN

1. **Presennol**
2. **Ymddiheuriadau**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:**
   Cyfarfod Llawn Hydref 6 2026
4. **Adroddiad y Cadeirydd**
5. **Adroddiad y Clerc**
   Dyma raglen hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer y Cynghorwyr canlynol :-

26.10.26	Sarah G Williams	Y Cyngor Modiwl 1	6.30
27.10.26	Edward Naish	Cynefino i gynghorwyr newydd	6.30
28.10.26	Alwyn Gruffydd Marian Roberts (Clerc)	Y Cyngor fel cyflogydd	2.30
23.11.26	Gwilym Jones Karena Owens	Y Cyngor fel cyflogydd	6.30
18.11.26	Llywelyn Rhys	Cyllid Llywodraeth Leol modiwl 6	6.30
18.11.26	Edward Naish	Y Cynghorydd	6.30
19.11.26	Ben Humphreys Dion Humphreys	Cynefino i gynghorwyr newydd	6.30

6. **Datgan diddordeb.**
7. **Ceisiadau Cynllunio.**
   (a) Rhif Cais / Application No.: C26/0600/44/DT (ebostio 12.10.26)
   Lleoliad / Location: YNYS CYNGAR Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU
   Bwriad / Proposal: Cais am adeilad allanol ategol unllawr newydd i gynnwys swyddfa gartref, campfa, storfa a garej. Bydd yr adeilad yn disodli'r garafán sefydlog bresennol a'r slab concrid presennol o 38m2
   (b) Rhif Cais / Application No.: C26/0590/44/LL (ebostio 15.10.26)
   Lleoliad / Location: THE UNION INN, 7 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
   Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniadau cefn presennol a chodi estyniad unllawr newydd /
   c) Rhif Cais / Application No.: C26/0592/44/CR (ebostio 20.10.26)
   Lleoliad / Location: THE UNION INN, 7 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
   Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniadau presennol cefn a chodi estyniad unllawr newydd /
   d) Rhif Cais / Application No.: C26/0634/44/TC (ebostio 22.10.26)

Lleoliad / Location: PENNANT, 10 Stryd Ralph, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UA
Bwriad / Proposal: Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer trosiad llofft cefn arfaethedig gyda dormer
bocs cefn i greu ystafell wely gyda balconi Juliette lled llawn a dwy ffenestr wydr afloyw ar yr ochr.
e) Cais Trwyddedu Pencei (wedi ebostio 27.10.26)

8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

- Penderfynu ar ddyddiad Archwiliad Cae Pawb
- Penderfynu ar ddarpariaeth llungopïo o Ebrill 2027 ymlaen

9. MATERION I'W DWYN GERBRON :-

- **Cyng Aled Griffith** : cynnig gyrru cerdyn i longyfarch Elfyn Evans ar ei lwyddiant diweddar yn ennill Pencampwriaeth Rali'r Byd yn Sardinia.
- **Cyng Gwilym Jones** :- cynnig ail-sefydlu'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo gyda chriw o tua 6 cynghorydd sydd yn ymddiddori neu'n arbenigo mewn materion ariannol.
- **Cyng Gwilym Jones** :- cynnig defnyddio arian Incwm Parcio i brynu meinciau i'w gosod ar y llwybr llesiant newydd
- **Cyng Aled Griffith** :- cynnig gosod byrddau gwybodaeth /map ar fynedfeydd i mewn i'r dref yn y mannau canlynol: **(gweler Gohebiaeth 1)**
  Cob crwn - ger y cerflun Cob Crwn / Llyn bach
  Y Cob - ger cerflun Madog
  Yr Harbwr - ger Clwb Hwylio a Y Ganolfan
  Yr Orsaf - ger y fynedfa i'r maes parcio
  Ffordd Penamser - ger siop Go Outdoors.
- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig Gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i holi a oes unrhyw gynllun i adeiladu unedau busnes ym Mhorthmadog fel sydd yn cael eu codi ym Minffordd a Phenygroes ar hyn o bryd.
- **Cyng Jeremy Davies** :-Cynnig bod y Cyngor Tref yn creu taflen holiadur ar ein safle Wê er mwyn i'r cyhoedd lawrlwytho ac ymateb. Creu cyfle i'r gymuned a chyfle i'r Cyngor Tref gael syniad beth yw blaenoriaethau lleol a chael gwybod pa gefnogaeth fyddai bwysicaf i bobl leol.
- **Cyng Aled Griffith**:- cynnig gyrru cerdyn ar ran y Cyngor Tref i longyfarch Cylch Meithrin Y Gorlan Fach ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf drwy Cymru yn y Chwarae a Dysgu tu allan ac am ennill yr ail wobr am y Cylch Meithrin gorau yn nhalaith Gogledd Orchewin Cymru.
- **Cyng Jeremy Davies** :- cynnig gweithredu i wella'r broses o rannu gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd a sefydliadau perthnasol eraill â chymunedau lleol.

10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhagfyr 8 2026 = Tachwedd 29 2026, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

11. Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb (copi ymghlwm)

12. GOHEBIAETH :

1	Bwrdd Llanberis	Enghraifft o fwrdd ar gyfer cynnig Cyng Aled Griffith
2	Glyn Williams (Greendocs)	Cynnig cytundeb llungopïwr
3	Cai Rees Jones	Ymateb i 12.10.26 meinciau o flaen Swyddfa'r Hedd
4	Pauline Williams	Defnydd o swyddfa'r Ganolfan
5	Cyngor Gwynedd	Cais Trwyddedu Pencei
6	Y GANOLFAN	Apêl gymunedol

7	IOAN GWILYM	Rhaglen ymgysylltu Plas Tanybwlch

13. MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

1	HSBC	Llog Banc hyd at Hydref 19, 2026	£38.01
2	DEFIBSTORE	Ad-daliad am padiau anghywir i Defib Morfa B.	£112.80
3	CYNGOR GWYNEDD	Incwm parcio 04/26 i 30.09.26	£11,276.92

Taliadau:-

1	Marian Roberts	Cyflog Clerc Hydref 2026	£1,702.27
2	HMRC	Treth Incwm Clerc Hydref 2026	£425.57
3	Elfyn Lewis	Cyflog gwyliau 2026	£581.90
4	HMRC	Treth Incwm cyflog gwyliau Elfyn Lewis	£145.47
5	Tesco (cerdyn)	Batris i Ddefib Cerrig yr Afon	£50.00
6	Google Play (cerdyn)	Storfa ychwanegol i'r gliniadur – 3 mis @	£0.29
7	Karena Owens	Ad-daliad Bear Prints (Eifion Wyn)	£36.80
8	Glenda Murray	Ad-daliad Dewi Wyn – digido llun Eifion Wyn	£48.00
9	Snowdonia Print	Poster mawr Eifion Wyn	£106.80
10	SLCC (cerdyn)	Aelodaeth SLCC 14.10.2026-14.10.2027	£331.00
11	Tescomobile (Direct Debit)	Taliad misol cytundeb ffôn symudol y Cyngor Tref	£35.99
12	Xerox Finance (cerdyn)	Taliad llogi llungopïwr 1.1.26 – 1.10.26	£477.60
13	Zoom (cerdyn)	Tanysgrifiad blynyddol 28.10.26 i 28.10.27	£167.88
14	UN LLAIS CYMRU	Hyfforddiant Sarah G Williams 26.10.26 Hyfforddiant Edward Naish 27.10.26 Hyfforddiant Marian Roberts 28.10.26	£44.00 £44.00 £44.00
15	GARDENCRAFT	Clirio tybiau blodau	£75.00
16	Hampshire Flag Co (cerdyn)	30 x finial ar gyfer y polion fflag	£448.80

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Marian Roberts
(Clerc)

Marian Roberts, Swyddfa'r Cyngor Tref, Y Ganolfan, Porthmadog LL49 9LU
07541155462
E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com